………………………………………………………

Mae Beaver, yn Oklahoma, Gogledd America, yn lle arbennig iawn!

Tref fach yw Beaver. Mae ganddi boblogaeth o tua 1,500. Mae canol y dref yn brysur ac mae ardal busnes brysur a champws ysgol arbennig o dda yma. Yn ogystal, mae yma barc sy'n denu twristiaid - Beaver Dunes State Park.

Yn 1879, lle i werthu crwyn anifeiliaid - neu ffwr - oedd Beaver, ond erbyn heddiw, mae'n dref fodern, braf. Mae popeth yma ar gyfer anghenion teuluoedd yn yr unfed ganrif ar hugain. Hyfryd!

Yn wahanol i drefi eraill, fodd bynnag, mae gan y dref deitl arbennig iawn. Beaver yw "Prifddinas Taflu Tail Gwartheg y Byd", neu os ydych chi'n byw yn Ne Cymru, "Prifddinas Taflu Dom Da y Byd". Credwch neu beidio, mae pobl yn dod o bob man dros y byd i wylio pobl yn taflu tail - neu ddom (baw gwartheg) - neu i daflu tail hyd yn oed. Bobl bach!

Pam ar y ddaear fyddai rhywun yn gwneud hyn? Wel, yn ystod y drydedd wythnos ym mis Ebrill bob blwyddyn, mae Pencampwriaeth y Byd ar gyfer taflu tail yn digwydd yn y dref hon (ie - Pencampwriaeth "y byd"!) Mae rheolau i'r gystadleuaeth:

1. Rhaid dewis tail sych o'r wagen swyddogol.
2. Rhaid i bob darn fesur tua 15 centimetr ar draws.
3. Mae'r cystadleuwyr yn cael dau gynnig ar daflu'r tail ar draws y cae.
4. Os ydy'r tail yn torri i fyny wrth iddo hedfan drwy'r awyr, bydd y swyddogion yn mesur y pellter rhwng y llinell daflu a'r darn sydd wedi teithio bellaf.

O ble daeth y syniad yma? Wel, flynyddoedd maith yn ôl, roedd pobl yn defnyddio tail i gynhesu eu cartrefi yn hytrach na defnyddio coed a glo. Felly, bydden nhw'n mynd â'u wagenni allan i'r cae ac yn eu llwytho nhw â thail. Byddai aelodau'r teuluoedd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd i weld pwy oedd yn gallu taflu'r tail bellaf … a dyna ddechrau'r cystadlu!

Felly, os ydych chi'n chwilio am rywbeth i'w wneud fis Ebrill nesaf, rydych chi'n gwybod ble i fynd.